# Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

**2010 mccc 4**

### 1 [[F1]Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd]

(1) Bydd [[F2]bwrdd i'w alw'n Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd] ("y Bwrdd").

(2) Aelodau'r Bwrdd yw'r Cadeirydd a phedwar aelod arall.

(3) Os bydd swydd y Cadeirydd yn wag, neu os na all y Cadeirydd weithredu, caiff aelodau eraill y Bwrdd benodi un o'u plith yn Gadeirydd Dros Dro.

(4) Cworwm y Bwrdd yw tri.

(5) Ni chaiff y Bwrdd wneud yr un penderfyniad o dan adran 20(6), 24(1) neu 53(7) o'r Ddeddf oni bai bod y cynnig i wneud hynny wedi'i gymeradwyo gan o leiaf dri o aelodau'r Bwrdd.

(6) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (4) a (5) ac i adran 2(2), mae'r Bwrdd i reoleiddio ei weithdrefn ei hun.

(7) Nid yw'r canlynol yn effeithio ar ddilysrwydd trafodion y Bwrdd—

- (a) swydd wag ymhlith yr aelodau, neu
- (b) diffyg wrth benodi aelod.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn mhennawd a. 1 wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 4(2)**

**F2** Geiriau yn a. 1(1) wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **aau. 8**, 42(2)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 22.7.2010, gweler **a. 20(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, Adran 1.